------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ar y safle - Ystafell Bwyllgora 5, Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 13 Mehefin 2022

Amser: 11.30


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru


## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(11.30)

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(11.30 - 11.35) (Tudalennau 1 - 2)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-17-22 - Papur 1 - Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

**2.1 SL(6)202 - Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2022**

## 3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(11.35 - 11.40)

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

**3.1 SL(6)203 - Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio'r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022**

(Tudalennau 3 - 4)

Gorchymyn

Memorandwm Esboniadol

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-17-22 – Papur 2 – Adroddiad drafft

## 4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(11.40 - 11.45)

**4.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Rheoliadau Etholiadau Senedd Ewrop (Diwygio a Dirymu) (y Deyrnas Unedig a Gibraltar) (Ymadael â'r UE) 2022**

(Tudalennau 5 - 6)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-17-22 – Papur 3 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 8 Mehefin 2022

**4.2 Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Presenoldeb yn y cyfarfod rhynglywodraethol ar 16 Mai**

(Tudalennau 7 - 8)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-17-22 – Papur 4 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 9 Mehefin 2022

**4.3 Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020: Gwaharddiadau o Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad – Rheoliadau Plastigau Untro 2022**

(Tudalennau 9 - 10)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-17-22 – Papur 5 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 9 Mehefin 2022

## 5 Papurau i'w nodi

(11.45 - 11.50)

**5.1 Gohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Gwladol at Gadeirydd Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi: Adolygu Llawlyfr y Cabinet**

(Tudalennau 11 - 14)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-17-22 – Papur 6 – Llythyr oddi wrth y Gweinidog Gwladol at Gadeirydd Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi, 1 Mehefin 2022 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-17-22 – Papur 7 – Llythyr oddi wrth Bwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi at Boris Johnson, y Prif Weinidog, 16 Mai 2022 [Saesneg yn unig]

**5.2 Gohebiaeth oddi wrth y Prif Weinidog: Rhaglen a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer deddfu i Gymru**

(Tudalennau 15 - 17)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-17-22 – Papur 8 – Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog, 9 Mehefin 2022

LJC(6)-17-22 – Papur 9 – Llythyr at y Prif Weinidog, 13 Mai 2022

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.50)

## 7 Mynediad at gyfiawnder: Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

(11.50 - 11.55) (Tudalennau 18 - 26)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-17-22 – Papur 10 – Papur briffio

## 8 Blaenraglen Waith

(11.55 - 12.05) (Tudalen 27)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-17-22 – Papur 11 – Papur briffio

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 13 Mehefin 2022

## SL(6)202 – Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2022

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau") yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1, 34 a 47(1) o Ddeddf Adeiladu 1984, a pharagraffau 1, 2, 4, 4A, 7, 8 a 10 o Atodlen 1 iddi. Mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru, sydd hefyd wedi ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu a'r cyrff eraill hynny yr ymddengys iddynt eu bod yn cynrychioli'r buddiannau o dan sylw yn unol ag adran 14(7) o Ddeddf Adeiladu 1984.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010 ("y Rheoliadau Adeiladu") a Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 ("y Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy") fel y maent y gymwys o ran Cymru. Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn cymhwyso'r metrig newydd ar gyfer mesur effeithlonrwydd ynni ar ffurf cyfradd ynni crai darged i anheddau newydd. Yn flaenorol, roedd cyfraddau defnyddio ynni crai yn gymwys i adeiladau ac eithrio anheddau.

Mae'r diwygiadau hefyd yn cyflwyno sgoriau effeithlonrwydd ynni newydd i adeiladau newydd ac yn cyflwyno rheoliad newydd ar gyfer cynhyrchu trydan ar y safle ac mewn perthynas â gorgynhesu (yn enwedig yn rhinwedd mewnosod paragraff L2 yn Rhan L o Atodlen 1 i'r Rheoliadau Adeiladu a Rhan O newydd). Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio sut y cymhwysir Rhan F sy'n ymwneud â phrofion llif awyr awyru mecanyddol.

Gwneir diwygiadau i'r Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy o ganlyniad i'r newidiadau hyn. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud darpariaeth drosiannol ar gyfer gwaith adeiladu ar adeilad penodol pan fo'r gwaith adeiladu wedi ei ddechrau yn unol â darpariaeth hysbysu berthnasol, ar yr amod bod y gwaith adeiladu ar yr adeilad hwnnw eisoes wedi cychwyn, neu ei fod yn cychwyn o fewn 12 mis i ddyfodiad y Rheoliadau hyn i rym.

Mae Atodlen 3 i'r Rheoliadau Adeiladu wedi ei ddiwygio i adlewyrchu newidiadau i gyrff sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau hunanardystio. Mae Deddf Adeiladu 1984 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyo a dyroddi dogfennau sy'n cynnwys canllawiau ymarferol mewn cysylltiad â'r gofynion sydd wedi eu cynnwys yn y Rheoliadau Adeiladu. Mae'r pŵer hwnnw yn arferadwy gan Weinidogion Cymru i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru.

Mae Dogfen Gymeradwy L Cyfrol 1, rhifyn 2022, Dogfen Gymeradwy F Cyfrol 1, rhifyn 2022 a Dogfen Gymeradwy O, rhifyn 2022 yn cynnwys canllawiau ymarferol ar fodloni'r gofynion newydd a fewnosodir yn y Rheoliadau Adeiladu gan y Rheoliadau. Mae'r Dogfennau Cymeradwy wedi eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru a gellir eu cyrchu ar www.llyw.cymru.

Mae cyfnod o 6 mis rhwng y Rheoliadau yn cael eu gwneud a dyddiad eu dyfodiad i rym, sef 23 Tachwedd 2022, er mwyn caniatáu digon o amser i'r diwydiant baratoi ar gyfer y gofynion newydd.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Adeiladu 1984

**Fe'u gwnaed ar:** 20 Mai 2022
**Fe'u gosodwyd ar:** 24 Mai 2022
**Yn dod i rym ar:** 24 Mai 2022

# SL(6)203 – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio’r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022

## Cefndir a Diben

Mae’r Gorchymyn hwn yn diwygio adran 66 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, sy’n diffinio eiddo domestig at ddibenion Rhan 3 (ardrethu annomestig) o’r Ddeddf honno.

Mae’r diwygiadau hyn yn cynyddu nifer y diwrnodau y mae rhaid bwriadu i eiddo hunanddarpar fod ar gael i’w osod, wedi bod ar gael i'w osod ac wedi'i osod, o fewn unrhyw gyfnod o 12 mis, er mwyn cael ei ddosbarthu’n eiddo annomestig o fewn y system drethu leol. Mae eiddo o'r fath yn agored i dalu ardrethi annomestig (NDR).

Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i eiddo o'r fath fod wedi'i fwriadu i'w osod a bod ar gael i'w osod am o leiaf 140 diwrnod ac wedi'i osod mewn gwirionedd am o leiaf 70 diwrnod.

Bydd y Gorchymyn hwn yn cynyddu'r gofynion o 140 i 252 o ddiwrnodau ac o 70 i 182 o ddiwrnodau yn y drefn honno. Caiff eiddo hunanarlwyo nad ydynt yn bodloni'r meini prawf gosod yn cael eu dosbarthu fel eiddo domestig, ac maent yn agored i dalu'r dreth gyngor.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y’i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Mae paragraff 5.1 i 5.3 o'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn yn nodi'r ymatebion i ymgynghoriad polisi Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y cafwyd ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid, a roddai awgrymiadau amrywiol ar gyfer y

meini prawf o ran dosbarthiad annomestig:

> *Cynhaliwyd ymgynghoriad polisi rhwng 25 Awst a 17 Tachwedd 2021. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn, ymhlith materion eraill, am y meini prawf i'w bodloni ar gyfer dosbarthu eiddo hunanddarpar yn eiddo annomestig at ddibenion trethiant lleol. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar 1 Mawrth 2022.*
>
> *Cafwyd 974 o ymatebion i'r ymgynghoriad, oddi wrth amrywiaeth eang o randdeiliaid. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys awdurdodau lleol, cynghorau tref a chymuned, darparwyr hunanddarpar, busnesau lleol, cyrff cynrychioliadol, cyrff/cymdeithasau proffesiynol ac unigolion preifat.*
>
> *Roedd safbwyntiau'r ymgynghoriad yn cefnogi cynnydd yn y meini prawf yn gyffredinol a rhoddwyd amrywiaeth o awgrymiadau. Yr awgrymiadau penodol mwyaf cyffredin oedd bod eiddo ar gael i'w osod am 210 o ddiwrnodau ac yn cael ei osod am 105 o ddiwrnodau mewn gwirionedd, ond awgrymodd llawer o ymatebwyr hefyd niferoedd uwch. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai pob eiddo sy'n darparu llety byw gael ei ddosbarthu'n eiddo domestig a bod yn atebol am y dreth gyngor, neu'n awgrymu y dylai'r meini prawf gosod fod mor uchel fel y byddent yn cael yr un effaith. Nid oes dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i dderbyn yr ymateb penodol mwyaf cyffredin i ymgynghoriad.*

Mae paragraff 5.4 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r ymatebion i'r ymgynghoriad technegol mewn perthynas â drafft o'r Gorchymyn. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y rhan fwyaf o'r ymatebion gan berchnogion eiddo hunanddarpar a'u cyrff cynrychioliadol, a oedd o'r farn bod y gofyniad i osod eiddo am 182 diwrnod yn rhy uchel:

> *Roedd drafft o Orchymyn 2022 yn destun ymgynghoriad technegol rhwng 1 Mawrth a 12 Ebrill 2022. Cafwyd 499 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd y mwyafrif helaeth oddi wrth berchnogion eiddo hunanddarpar a chyrff cynrychioliadol a ddywedodd fod y meini prawf o osod eiddo am 182 o ddiwrnodau yn rhy uchel. Felly, roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad technegol yn benodol iawn i'r sector, gan gwmpasu rhan yn unig o'r set ehangach o randdeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad polisi blaenorol. Disgwylir hyn yn gyffredinol ar gyfer ymgyngoriadau technegol, sy'n denu ymatebion yn bennaf oddi wrth randdeiliaid y bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn gymwys iddynt yn uniongyrchol. Ni nodwyd unrhyw broblemau o ran eglurder technegol y Gorchymyn. Nodwyd rhai meysydd o gamddealltwriaeth o ran cymhwyso ac amseriad y Gorchymyn, a fydd yn cael eu hegluro mewn canllawiau diwygiedig.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**8 Mehefin 2022**

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.wales

08 Mehefin 2022

Annwyl Huw

**Rheoliadau Etholiadau Senedd Ewrop (Diwygio a Dirymu) (y Deyrnas Unedig a Gibraltar) (Ymadael â'r UE) 2022**

Mae'r Gweinidog dros Gydraddoldeb a Chymunedau Lefelu wedi rhannu'r rheoliadau a enwir uchod gyda mi, cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Bydd y Rheoliadau'n dileu'r cyfeiriadau sy'n weddill sy'n gysylltiedig â Senedd Ewrop nad ydynt bellach yn angenrheidiol o is-ddeddfwriaeth benodol sy'n ymwneud ag etholiadau domestig. Rwy'n deall y caiff y Rheoliadau eu gosod ym mis Gorffennaf a bydd yr Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Ar ôl ystyried yn ofalus, bwriadaf roi fy nghaniatâd i'r Rheoliadau, felly mae'r darpariaethau sydd ynddo yn gymwys yng Nghymru. Fel arfer, polisi Llywodraeth Cymru yw mai cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw deddfu dros Gymru pan fo pwerau'n nwylo'r pwerau. Fodd bynnag, o dan amgylchiadau eithriadol ymadawiad y DU â'r UE, rydym yn cydnabod yr angen i Lywodraeth y DU ddeddfu mewn rhai meysydd datganoledig mewn achosion eithriadol. Yn yr achos hwn, mae'r Rheoliadau arfaethedig yn newid nad yw'n ddadleuol ac yn dechnegol i gyfraith etholiadol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gallaf gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at Lywodraeth y DU cyn bo hir i roi caniatâd i Reoliadau Etholiadau Senedd Ewrop (Diwygio a Dirymu) (y Deyrnas Unedig a Gibraltar) (Ymadael â'r UE) 2022, wneud cais i Gymru y tro hwn.

Byddaf yn hysbysu'r Senedd mewn Datganiad Ysgrifenedig fy mod wedi cydsynio i'r Offeryn Statudol hwn pan gaiff ei osod yn y Senedd.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Presenoldeb yn y cyfarfod rhynglywodraethol ar 16 Mai** |
| **DYDDIAD** | **09 Mehefin 2022** |
| **Gan** | **Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol, rwy'n eich hysbysu y cafodd cyfarfod arall y Grŵp Rhyngweinidogol – yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ei gynnal ar 16 Mai.

Yn bresennol yn y cyfarfod roedd Edwin Poots ACD, Gweinidog Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon (Cadeirydd); George Eustice AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth y DU; Victoria Prentis AS, Gweinidog Gwladol, DEFRA, Llywodraeth y DU; Mairi McAllan, Gweinidog yr Amgylchedd a Diwygio Tir, Llywodraeth yr Alban; Lorna Slater ASA, Gweinidog Sgiliau Gwyrdd, yr Economi Gylchol, a Bioamrywiaeth, Llywodraeth yr Alban.

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethom ailystyried yr argyfwng yn Wcráin a'r effaith ar gostau cynhyrchu gwrteithiau, bwydydd anifeiliaid a thanwydd. Gwnaethom hefyd drafod trefniadau rhoi anifeiliaid anwes mewn cwarantin, a phwysais ar Lywodraeth Cymru i roi sicrwydd y byddai lleoedd ar gael mewn cyfleusterau cwarantin ar gyfer pob gwlad yn y DU ni waeth beth yw'r gwahaniaethau rhwng eu polisïau.

Darparodd Llywodraeth y DU bapur yn nodi ei safbwynt diweddaraf ynglŷn â pharatoadau ar gyfer rheoli ffiniau, a chadarnhaodd na châi rhagor o fesurau rheoli mewnforion eu cyflwyno yn ystod 2022. Nodais fy mhryderon, unwaith eto, fod gwiriadau'n cael eu hoedi, a hynny heb ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig ymlaen llaw – mae hwn yn ymddygiad sydd wedi datblygu'n batrwm braidd o ran Llywodraeth y DU. At hynny, nodais bryderon fy Mhrif Swyddog Milfeddygol ynghylch goblygiadau'r oedi i fioddiogelwch, yn ogystal â siom rhanddeiliaid oherwydd y diffyg tegwch rhwng mewnforwyr ac allforwyr, sy'n rhoi cynhyrchwyr domestig dan anfantais o ran cystadlu.

Nododd Llywodraeth y DU ei rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer y dyfodol ynghyd â’i chynigion yn deillio o araith y Frenhines, a oedd yn cynnwys Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl); Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir); Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) a Bil Caffael.

Daeth Llywodraeth yr Alban â’r cyfarfod i ben drwy gyflwyno’i fframwaith ar gyfer dyfodol polisïau ym maes amaethyddiaeth yn yr Alban, sy’n canolbwyntio ar fentrau diwygio tir, adfer natur a ffermio cynaliadwy. Mae’r Alban yn dilyn trywydd tebyg i Gymru, gyda system o gymorth sylfaenol a thaliadau amodol ychwanegol sy’n seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer yr hinsawdd a bioamrywiaeth.

Gwnaethom gytuno y câi’r cyfarfod nesaf ei gynnal wyneb yn wyneb ddydd Mercher, 20 Gorffennaf, yn ystod Sioe Frenhinol Cymru, pan fwriadaf nodi cynigion amaethyddol Cymru i’r dyfodol.

Caiff hysbysiad ynglŷn â’r cyfarfod hwn ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU yn:

Communiqués from the Inter Ministerial Group for Environment, Food and Rural Affairs (Saesneg yn Unig)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

**TEITL:** **Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020: Gwaharddiadau o Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad – Rheoliadau Plastigau Untro 2022**

**DYDDIAD:** **09 Mehefin 2022**

**GAN:** **Julie James AS, Gweinidog Newid Hinsawdd**

Mae Atodlen 1 i Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (UKIMA) yn darparu na fydd yr egwyddorion cydnabod cydfuddiannol a diffyg gwahaniaethu o dan Ran 1 o UKIMA yn effeithio ar gymhwyso cyfyngiadau a gofynion deddfwriaethol penodol. Mae adran 10 o UKIMA yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio Atodlen 1 drwy offeryn statudol (OS). Er enghraifft, gweithredu cytundeb sy'n rhan o gytundeb Fframwaith Cyffredin ac sy'n darparu y dylid eithrio achosion, materion, gofynion neu ddarpariaeth benodol o gymhwyso egwyddorion mynediad i'r farchnad.

Ar 9 Mehefin, gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol Reoliadau Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (Gwaharddiadau o Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad: Plastigau Untro) 2022 ("yr OS gwahardd") gan ddefnyddio'r pwerau o dan adran 10 o UKIMA. Mae'r gwaharddiad OS yn eithrio wyth eitem blastig untro (gwellt, troellwyr, platiau, cyllyll a ffyrc, ffyn balŵn, cynwysyddion bwyd a chwpanau polystyren estynedig a ffyn cotwm) o egwyddorion mynediad i'r farchnad o dan UKIMA. Yn unol ag adran 10 o UKIMA, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud y gwaharddiad OS.

Gofynnodd Llywodraeth yr Alban am y gwaharddiad i gefnogi eu rheoliadau i wahardd nifer o eitemau plastig untro. Bwriedir i Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Yr Alban) 2021 ddod i rym ar 1 Mehefin 2022. Dylai'r OS Gwahardd ddod i rym mor agos â phosibl i'r dyddiad hwn.
O ystyried y cyfyngiadau amser, rwyf wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad yn nodi fy mwriad i gydsynio i osod yr OS gwahardd.
Rwy'n ymwybodol na wnaeth y Senedd gydsynio i wneud UKIMA ei hun. Mae'r Ddeddf, sydd wedi'i gorfodi ar Gymru gan Senedd y DU, yn honni ei bod yn cyfyngu ar allu'r Senedd i ddeddfu mewn materion datganoledig. Mae hyn yn rhywbeth na allwn ei dderbyn ac rydym wedi nodi ein gwrthwynebiadau mewn her gyfreithiol.

Wrth gydsynio i'r OS gwahardd, nid yw ein safbwynt o ran UKIMA wedi newid. Nid ydym yn credu bod UKIMA yn cael yr effaith ar gymhwysedd y Senedd y mae'n honni ei chael. Fodd bynnag, gan nad yw ymgyfreitha UKIMA rhwng llywodraethau Cymru a'r DU wedi dod i ben

eto, rydym yn cydnabod y gallai fod o fudd i ni gydweithredu â'r broses wahardd. Nid yw hyn yn amharu ar yr ymgyfreitha. Ar y sail hon, rwyf wedi cydsynio i'r OS gwahardd.

Mae maint yr argyfwng natur a hinsawdd yn golygu bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i'n hamgylchedd. Mae gennym gyfnod byr i weithredu ynddi. Cyn bo hir, byddaf yn cyflwyno deddfwriaeth Gymreig i wahardd nifer o eitemau plastig untro sy'n cael eu taflu'n aml ac mae gennyf uchelgais i fynd ymhellach. Ni ellir dal y Senedd yn ôl rhag cymryd camau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r heriau hyn a diogelu amgylchedd Cymru, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Lord True CBE
Minister of State
Cabinet Office 70 Whitehall London SW1A 2AS

The Baroness Drake CBE
Chair of the Constitution Committee
House of Lords
London
SW1A 0AA

1st June 2022

Dear Baroness Drake

**Cabinet Manual**

Thank you for your letter dated 16 May 2022. As ever, I welcome your interest in the work we are undertaking to review the Cabinet Manual. Since we announced our intention to update the current edition within this Parliament in response to your committee's report, work has started to identify the areas where the Cabinet Manual has become out of date.

Unlike the production of the first edition of the Cabinet Manual between 2010 and 2011, we will not be producing the document from scratch but instead updating the Manual to reflect changes in processes, practice and convention since it was first published. Our process for updating the Cabinet Manual, including any engagement, will reflect the extent to which significant changes are required or whether the updates are more limited in nature e.g. to reflect where legislation has been updated. We will of course keep your committee and others updated as the work progresses.

On ministerial duties, when the first edition was published it was endorsed by the Cabinet. The then Prime Minister made it clear that he would expect everyone working in Government to be mindful of the guidance it contains. This remains the case. Officials will be very happy to meet your Committee officials to provide background on the timetable and our approach. I am grateful for the Committee's support in this work.

I am copying this letter to the Speaker of the House of Commons, the Lord Speaker, the Chair of the Liaison Committee, the Convener of the Scottish Parliament's Constitution, Europe, External Affairs and Culture Committee, the Chair of the Senedd Legislation, Justice and Constitution Committee and the Northern Ireland Assembly Committee for the Executive Office so that they are aware of the latest developments.

**Yours sincerely,**

**Lord True CBE**

HOUSE OF LORDS
Select Committee on the Constitution

House of Lords
London
SW1A 0PW

Tel: 020 7219 1228
constitution@parliament.uk
www.parliament.uk/lords

The Prime Minister
10 Downing Street
London
SW1A 2AA

16 May 2022

Dear Prime Minister,

**Government Response to the Lord's Constitution Committee report – Revision of the Cabinet Manual (6th Report, Session 2021-22, HL Paper 34)**

I write on behalf of the Constitution Committee following the Government's 7 February response to our report *Revision of the Cabinet Manual.*

As noted in our report and Lord True's response, the Cabinet Manual's role is to record—rather than prescribe—constitutional rules and conventions. We recognise that the Cabinet Manual is an executive document and, as Lord True wrote in his letter, its content—and adherence to that content—is ultimately a matter for you, the Prime Minister.

Nonetheless, we reiterate our recommendation that you make clear, in the foreword to the next edition, the duty on all ministers to adhere to the constitutional principles in the Cabinet Manual. We would be grateful to receive the Government's views on this recommendation.

We also note that there have been significant constitutional developments since the Cabinet Manual was first published in 2011, including, for example, further devolution of powers, the UK's departure from the European Union and changes to the way in which Parliament is dissolved. Given that the updated Cabinet Manual will serve to guide ministers as to the constitutional rules pertaining both to recent developments and longer standing constitutional matters, we consider it prudent to secure a high level of consensus on its content. It is therefore appropriate that this Committee—along with the relevant committees in the House of Commons—be meaningfully consulted, in line with the spirit of consultation that was evident when the first edition of the Cabinet Manual was produced in 2010–2011.[1] We recommend this consultation should include the sharing of draft revisions to the manual with relevant committees in a timely manner, allowing for sufficient scrutiny and feedback. We would be grateful if you could confirm if this is your intention.

We note that Lord True's letter describes the Cabinet Manual as "a UK Government document signed off by UK Ministers, accountable to the UK Parliament". While we do not contest this, we suggest that as a record of UK constitutional rules it applies to all four nations of the UK. We therefore reiterate our recommendation that the Government should formally consult the relevant committees in the devolved legislatures on any draft

[1] Constitution Committee, *Revision of the Cabinet Manual* (6th report, Session 2021-2022, HL paper 24), paras 8–9

revisions to the Cabinet Manual. This would be in line with the Prime Minister's role as Minister for the Union, which includes responsibility to "ensure that all of government is acting on behalf of the entire United Kingdom: England, Northern Ireland, Scotland and Wales."[1] We would welcome confirmation on whether this is the Government's intention.

Our report recommended a draft be produced by July 2022. While we note the Government's commitment to publish an updated version of the Cabinet Manual by the end of this Parliament, we would be grateful for an indication of the proposed timeline for this.

I am copying this letter to Rt Hon Steve Barclay MP, Chancellor of the Duchy of Lancaster, Lord True, Minister of State, Cabinet Office, William Wragg MP, Chair, House of Commons Public Administration and Constitutional Affairs Committee, Clare Adamson MSP, Convener of the Scottish Parliament's Constitution, Europe, External Affairs and Culture Committee, Huw Irranca-Davies MS, Chair of the Senedd Legislation, Justice and Constitution Committee and the Northern Ireland Assembly Committee for the Executive Office.

Yours sincerely,

Baroness Drake
Chair of the Constitution Committee

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth,
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad,
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru

9 Mehefin 2022

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Mai 2022.

Ar ran Llywodraeth Cymru, byddai'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad yn falch o archwilio dull Llywodraeth Cymru o ddeddfu, mewn sesiwn yn gynnar yn nhymor yr Hydref ochr yn ochr â'r Ysgrifennydd Parhaol.

Yn gywir,

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORDD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**–**

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

**–**

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

13 Mai 2022

Annwyl Mark

Rhaglen a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer deddfu i Gymru

Yn ystod blwyddyn gyntaf y Chweched Senedd, mae'r rhan fwyaf o'n gwaith craffu wedi canolbwyntio ar ddeddfwriaeth: dau Fil Llywodraeth Cymru, tua 200 o ddarnau o is-ddeddfwriaeth yn ogystal â memoranda cydsyniad deddfwriaethol ynghylch 19 o Filiau Llywodraeth y DU sy'n cynnig deddfu mewn meysydd datganoledig.

Mae'r gwaith craffu hwn wedi tynnu sylw at amrywiaeth o faterion sydd wrth wraidd ein trefniadau cyfansoddiadol gan gynnwys dull Llywodraeth Cymru o ddeddfu (fel rhan o'i Rhaglen Lywodraethu) a hefyd sut y gall yr adnoddau sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ddylanwadu ar y dull sy'n cael ei fabwysiadu.

Hoffem archwilio'r materion hyn gyda chi ym mis Medi ac yng nghyd-destun datganiad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ail flwyddyn y Chweched Senedd, yr ydym yn rhagweld y byddwch yn ei gyflwyno ym mis Gorffennaf. Byddem hefyd yn hapus i estyn y gwahoddiad hwn i'r Ysgrifennydd Parhaol, pe baech yn ystyried bod hynny'n briodol.

Gall clercod y Pwyllgor gysylltu â'ch swyddfa i drefnu a sicrhau slot priodol os byddai hynny'n ddefnyddiol. Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Dr Andrew Goodall CBE, yr Ysgrifennydd Parhaol.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon